# CYLCHLYTHYR 05.07.24

## Trefniadau Mis Medi 2024

Gobeithio bod eich plentyn wedi mwynhau'r sesiwn blasu yn eu dosbarth newydd yr wythnos hon. Yn dilyn hyn, efallai y bydd angen ychydig o newidiadau – os yw hyn yn effeithio ar eich plentyn, byddwn yn cysylltu â chi yn bersonol i drafod.

Mae Ysgol Coed-y-Gof yn un o lawer o ysgolion yng Nghaerdydd sy'n wynebu cyfnod heriol gyda niferoedd disgyblion yn disgyn (oherwydd gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau), a'r lleihad dilynol yn y gyllideb.

I adlewyrchu'r newidiadau hyn rydym wedi addasu strwythur dosbarthiadau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Ein prif ystyriaeth wrth edrych ar y trefniadau hyn oedd sicrhau ein bod yn darparu lefel uchel o addysg a phrofiadau yn yr ysgol. Bydd ein strwythur newydd yn sicrhau y gallwn gyflawni'r rhain. Yn ogystal, rydym wedi cyd-weithio gydag athrawon dosbarth er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn ffrindiau yn y dosbarth newydd.

Fel y gwelwch o'r tabl isod mae yna ychydig mwy o ddosbarthiadau cymysg. Mae ein cwricwlwm wedi'i gynllunio i gyflwyno addysg ar lefel sy'n briodol i'ch plentyn yn ei gyfnod datblygu, ac rydym yn ffyddiog y caiff hyn ei gyflawni. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu i ni addasu ein cwricwlwm ac rydym yn hyderus y gallwn ddarparu cwricwlwm cyffrous ac ysgogol a fydd yn ysbrydoli pob plentyn i ddod yn ddysgwyr brwdfrydig, annibynnol, creadigol, iach a mentrus.

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol wedi bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ac yn gwbl gefnogol o'r strwythur newydd.

Os hoffech drafod hyn ymhellach cysylltwch â'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth.

| Dosbarthiadau mis Medi 2024 | | |
|---|---|---|
| Bl 6 | Masarnen | Mr Lewis |
| Bl 5 | Castanwydden | Mrs E Jones |
| Bl 5/4 | Sycamorwydden | Mrs N Rivers |
| Bl 3/4 | Collen | Mr E John |
| Bl 3 | Gwernen | Mrs B McConnell |
| Bl 2 | Ywen | Mrs A Mayer a Ms M Davies |
| D/1 | Derwen | Mrs F Davies |
| | Enfys/Cwtch | Mrs L Casey a Ms J Murphy |

## Cyn–ddisgybl Olympaidd!

Hoffwn longyfarch a dymuno pob lwc i un o gyn–ddisgyblion Ysgol Coed–y–Gof, Ruby Evans wrth iddi gynrychioli'r DU yn y gemau Olympaidd ym Mharis. Byd Ruby yn cystadlu yn y gymnasteg ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn i'w chefnogi. Amdani Ruby – rwyt ti'n seren!!



# Tafwyl 12 – 14 Gorffennaf

Mae Tafwyl yn ŵyl flynyddol a drefnir gan Fenter Caerdydd i ddathlu celfyddydau a diwylliant Cymru. Eleni, fe'i cynhelir ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, 13eg a 14eg o Orffennaf ym Mharc Biwt. Bydd yr ŵyl yn cynnwys perfformiadau gan nifer o fandiau Cymreig – rhai cyfarwydd yn ogystal ag wynebau newydd – ac wrth gwrs mae'r stondinau bwyd a diod arferol, a llawer o weithgareddau i blant. Mae'n ddiwrnod gwych i'r teulu i gyd!

Bydd disgyblion o fl 2 – fl 6 yn cael y cyfle i berfformio ar lwyfan yr Ysgolion ar brynhawn dydd Sul, 14/07 am 1:45pm. Neilltuwyd 15 munud ar gyfer y perfformiad a bydd y disgyblion yn canu amrywiaeth o ganeuon.


Gan ei fod yn benwythnos, mi fydd angen i chi hebrwng eich plentyn ac aros gyda nhw yn ystod y prynhawn. Mae'r nifer yn gyfyngedig i 30 o blant felly'r cyntaf i'r felin gaiff falu.

Mae Menter Caerdydd wedi darparu bws am ddim i ni i deithio i Tafwyl. Byddwn yn rhannu'r bws gydag ysgol Nant Caerau a byddwn yn eich casglu o Lon Caerau, ac Ysgol Coed–y–Gof. Bydd y bws yn dychwelyd a chi i'r un mannau. Bydd amseroedd casglu yn cael ei rhannu gyda chi maes o law.

Plîs cwblhewch y ffurflen yma cyn dydd Llun, Gorffennaf 8fed os gwelwch yn dda os ydych am i'ch plentyn cymryd rhan ac y gallwch ddod a nhw i Tafwyl. Diolch.

## Senedd Ieuenctid Caerdydd

Diolch i ddisgyblion blwyddyn 5 am fynychu senedd Cymru ym Mae Caerdydd a chynrychioli'r ysgol mor wych. Roedd y disgyblion yn hapus i drafod eu barn ar nifer o faterion gwahanol a rhoi ochr Coed y Gof i nifer o ddadleuon diddorol.




## Cwpan Betsan





Diolch enfawr @YsgolTreganna a @FAWales am drefnu diwrnod arbennig ar Fehefin 27ain i'n tîm pel-droed merched. Dangosant sigliau chaware a chyd-weithio gwych! Roedd @LauraMcAllister a @rhirhi8 yno o @FAWales yn ysbrydoliaeth fawr. Llongyfarchiadau arbennig i un aelod o'r tîm, Adeline Davies, am ennill Tlws Betsan sydd yn cael ei gyflwyno i'r chwaraewr a ddangosodd yr ysbryd a'r agwedd gorau trwy gydol y Twrnamaint. Rydym yn falch iawn iawn ohonot ti Adi!

.

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 05.07.24 | FFAIR HAF 3:30 – 5:30 |
| 08.07.24 | Trip bl 5 & 6 i Ganolfan hamdden Tyllgoed |
| 08.07.24 | Gwasanaeth dosbarth Onnen 2:00 |
| 09.07.24 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 10.07.24 | Gwasanaeth Dosbarth Derwen 2:00 |
| 11.07.24 | Pontio Plasmawr 3 |
| 11.07.24 | Trip DD – bl 2 i Parc Play |
| 12.07.24 | Gwasanaeth gadael Bl 6 2:00 |
| 13&14.07.24 | Tafwyl (14/07 1:45, LLWYFAN YSGOLION) |
| 15.07.24 | Trip Bl 3 & 4 i Ganolfan hamdden Tyllgoed |
| 17.07.24 | Trip Bl 6 i'r Aqua Park |
| 19.07.24 | Diwrnod olaf ysgol i'r disgyblion |
| 22.07.24 | HMS – ysgol ar gau i ddisgyblion |